Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/KW/1432/21

Rob Humphreys
Y Cadeirydd
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

24 Mawrth 2021

Annwyl Rob

LLYTHYR CYLCH GWAITH 2021-22

1. Ysgrifennaf atoch i amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a chadarnhau'r amcanion yr ydym wedi cytuno arnynt ar gyfer gweddill tymor y Llywodraeth. Cyn gwneud hynny rwyf am gofnodi fy niolch diffuant am yr ymdrech enfawr a wnaed gan aelodau a swyddogion y Cyngor i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y gwaith caled a'r ymroddiad y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu a'u dosbarthu'n gyflym i gefnogi sefydliadau, eu staff a'u myfyrwyr wrth ddelio ag effeithiau Covid-19 yn y ffordd fwyaf effeithiol.

2. Mae hon wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i unrhyw un arall. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi gofyn am ymdrech tîm enfawr a chyson ar y cyd ar draws holl weithgareddau addysg uwch. Hoffwn ddiolch i staff yn ein sefydliadau, ar bob lefel, ac ym mhob rôl a disgyblaeth, am eu cyfraniadau personol i ymateb Cymru. Rwyf hefyd am gydnabod y cyfraniad pwysig a wnaed gan y myfyrwyr eu hunain, boed hynny drwy ddarparu cymorth rheng flaen i'r GIG neu drwy helpu i gadw Cymru'n ddiogel drwy gydymffurfio â'r cyfyngiadau y bu'n rhaid inni eu rhoi ar waith, a gwn fod hynny wedi bod yn anodd i lawer.

3. Fodd bynnag, mae'r her yn parhau. Er mai ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau diogelwch, iechyd a lles parhaus staff a myfyrwyr prifysgolion a'n cymunedau, rhaid inni hefyd droi ein ffocws at y modd y byddwn yn adfer o'r pandemig. Mae canlyniadau'r pandemig i'n heconomi, ein cymdeithas a'n cymunedau wedi bod yn sylweddol a bydd ein prifysgolion yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu Cymru i adfer.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

4. Mae sicrhau cryfder a chynaliadwyedd parhaus ein sector addysg uwch, felly, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon fel y gall barhau i ddarparu addysg ac ymchwil o'r radd flaenaf i gefnogi ein heconomi, ein system addysg, ein cymdeithas a'n cymunedau yng Nghymru.

5. Rwy'n falch, felly, fy mod wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol eleni sy'n galluogi cyfanswm dyraniad o £213,503,000 i'r sector ar gyfer 2021-22.

Cyflawniadau

6. Hwn fydd fy llythyr cylch gwaith olaf i'r Cyngor. Wrth imi edrych yn ôl ar fy amser yn y swydd, rwy'n falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud – gan gydweithio fel sector a llywodraeth, i greu system addysg uwch decach a chynaliadwy yng Nghymru, ac un sydd wedi'i seilio ar hanfodion tryloywder, bod yn agored a thegwch.

7. Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd yr ydym wedi'i weld o ran myfyrwyr rhan-amser ac ôl-raddedig ac o ran myfyrwyr israddedig amser llawn o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gennym wedi rhoi cyfle gwirioneddol inni fynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau parhaus yn ein cymdeithas a helpu i gefnogi egwyddorion ehangu mynediad, symudedd cymdeithasol, dysgu gydol oes a gwell rhagolygon economaidd.

8. Mae cenhadaeth ddinesig wedi bod wrth wraidd ein diwygiadau ac mae bellach wedi'i gwreiddio'n gadarn yn ein sector addysg uwch. Mae'r pandemig wedi amlygu'r rôl bwysig y mae ein sefydliadau yn ei chwarae wrth ddatblygu a chynnal cymunedau ffyniannus, gwybodus a gwydn. Rwyf wrth fy modd fy mod wedi gallu cefnogi'r Cyngor i ailgyflwyno Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Drwy'r Gronfa honno hoffwn i'r Cyngor sicrhau bod sefydliadau'n cynnal eu hymdeimlad o gyfrifoldeb dinesig ac yn parhau â'u gwaith hanfodol wrth gefnogi eu cymunedau lleol, yn enwedig wrth inni ddod allan o'r pandemig.

9. Wrth inni gyflwyno ein diwygiadau fesul cam, rhoddais sicrwydd i CCAUC y byddai ei incwm yn parhau i gynyddu ym mhob blwyddyn o'r Llywodraeth hon. Rwy'n falch fy mod wedi gallu cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Amcanion Strategol

10. Drwy gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio ac ariannu'n effeithiol, mae CCAUC yn ganolog o ran sicrhau bod ein system addysg uwch yn gynaliadwy, yn deg, yn cael ei llywodraethu'n dda ac yn darparu profiad o ansawdd sy'n arwain at ganlyniadau boddhaol i ddysgwyr.

11. Gydag etholiadau'r Senedd ym mis Mai, mater i'r Llywodraeth newydd fydd nodi ei hamcanion strategol ar gyfer y tymor newydd maes o law. Hyd nes y cyhoeddir Rhaglen Lywodraethu newydd, hoffwn i'r Cyngor barhau i ddefnyddio ei ddylanwad i gryfhau

cyfraniad y sector at gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru a'n helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant cenedlaethol.

12. Yn benodol, dros weddill tymor y Llywodraeth hon, hoffwn i'r Cyngor ganolbwyntio ar gyflawni'r amcanion canlynol:

Cefnogi Myfyrwyr

13. Mae prifysgolion wedi gweithio'n eithriadol o galed eleni i gefnogi myfyrwyr i ddelio ag effeithiau academaidd a chymdeithasol y pandemig. Rwyf wedi bod yn falch o weld y mesurau a'r dulliau a gymerir i ddiogelu iechyd a lles myfyrwyr a staff ar draws y sector. Mae'r her i fyfyrwyr aros yn y brifysgol, aros yn iach ac ymgymryd â'u hastudiaethau wedi bod yn sylweddol, i fyfyrwyr ac i'r prifysgolion eu hunain. Hoffwn i'r Cyngor barhau i gefnogi sefydliadau gyda'r gwaith hollbwysig hwn i'w helpu i wneud popeth o fewn eu gallu i liniaru'r risg y bydd myfyrwyr yn rhoi'r gorau i'r astudiaethau a'r effaith negyddol y byddai hynny'n ei chael ar eu lles a'u rhagolygon gyrfa.

14. Er mwyn cefnogi'r Cyngor gyda'r ymdrech honno rwyf wrth fy modd fy mod wedi gallu cadw £2m ar gyfer iechyd meddwl a lles yng nghyllideb CCAUC eleni, a fydd yn galluogi sefydliadau i gynnal a datblygu eu gwaith da presennol. Er mai hwnnw yw'r cyllid a ddyrennir o fewn y gyllideb, dylai CCAUC a sefydliadau ystyried lefel yr angen o fewn sefydliadau ac yn y sector, a dyrannu cyllid ychwanegol os bydd angen.

15. Hoffwn hefyd weld mesurau penodol yn cael eu cyflwyno i gefnogi myfyrwyr sy'n trosglwyddo o'r ysgol neu'r coleg i'r brifysgol eleni, gan ystyried yr aflonyddwch y maent wedi'i brofi yn emosiynol ac yn academaidd.

16. Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon hefyd wedi codi cwestiynau am y dull o ymdrin ag addysg uwch ledled y DU ac wedi herio rhai safbwyntiau hirsefydlog ar faterion fel arholiadau a'u perthynas â'r nifer y mae prifysgolion yn ei dderbyn a hawl i ddysgu gydol oes. Rwy'n disgwyl i'r Cyngor weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddilyn y datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg yn Lloegr a chenhedloedd eraill y DU wrth inni symud ymlaen ac ymateb iddynt – a hynny ar lefel Cymru a'r DU, ar faterion fel cymwysterau Safon Uwch a nifer derbyn cyn-gymhwyso.

17. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor ac ar draws y sector i gryfhau dulliau diogelu i sicrhau bod sefydliadau yn amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol i'r holl staff a myfyrwyr. Serch hynny, mae tystiolaeth o anghydraddoldebau hiliol o hyd mewn addysg uwch. Rwyf am i'r Cyngor weithio gyda'r sector i wneud cynnydd cyflym a pharhaus i wella profiad staff a myfyrwyr mewn addysg uwch waeth beth fo'u cefndir hiliol.

18. Mae rhai o'n sefydliadau eisoes yn gweithio tuag at Siarter Cydraddoldeb Hiliol AU Ymlaen. Yn ystod y flwyddyn i ddod rwyf am weld pob un o'n sefydliadau'n dechrau'r broses o gyflawni Nod Siarter fel arwydd o'u hymrwymiad i ddileu hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol ar bob lefel o fewn y sector.

Cefnogi Adferiad Economaidd

19. Bydd cefnogi ein hadferiad economaidd yn ffocws allweddol i waith y Cyngor eleni. Mae dod allan o'r pandemig yn cyflwyno heriau ond hefyd gyfleoedd i adfywio ac ailystyried y cynnig ar gyfer addysg uwch. Hoffwn i'r Cyngor weithio gyda'r sector i ystyried pa gyfleoedd y gellir eu creu i gefnogi graddedigion, gweithwyr ar ffyrlo, ac eraill y mae'r pandemig yn effeithio'n negyddol arnynt gyda chyfleoedd i ailhyfforddi, ailsgilio neu eu hannog i ddechrau cwrs addysg uwch efallai am y tro cyntaf. Hoffwn hefyd i'r Cyngor gynnal y momentwm ar ddatblygu ymateb strategol i'r pandemig drwy waith ei Grŵp Edrych Tua'r Dyfodol.

20. Mae darpariaeth fodiwlaidd a chyrsiau byr sy'n cyd-fynd ag angen economaidd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o ran creu cyfleoedd mwy hyblyg i unigolion ailhyfforddi, ailsgilio neu newid gyrfaoedd a hoffwn weld addysg uwch yn chwarae ei rhan. Hoffwn i'r Cyngor barhau â'i waith o gefnogi datblygiad cyrsiau micro-gymwysterau a modiwlaidd yng Nghymru i gefnogi ein twf economaidd a'n hadferiad. Rwyf wedi dyrannu cyfraniad dangosol o £1.1m i gefnogi'r gweithgaredd hwnnw.

21. Mae'r cyllid yr wyf wedi'i sicrhau ar gyfer addysg uwch eleni yn cydnabod effaith y pandemig ar y sector a'u rôl o ran tyfu economi'r dyfodol, drwy gynyddu lefelau sgiliau uchel, ymchwil ac arloesi a chenhadaeth ddinesig. Bydd y dyraniad ychwanegol o £25m yn rhoi'r Cyngor mewn gwell sefyllfa eleni i ddechrau gweithredu cam olaf ein hymateb i Adroddiadau Diamond a Reid, gan gynnwys cynyddu ei fuddsoddiad mewn ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, ehangu ei gefnogaeth i bynciau drud a chost uwch (amser llawn a rhan-amser) a pharhau â'r cymhellion ôl-raddedig a'r cynlluniau bwrsariaeth 60+ a gyflwynwyd gennym yn 2019/20 am drydedd flwyddyn.

Gradd-brentisiaethau

22. Mae'r gradd-brentisiaethau'n ychwanegiad sylweddol i'r hyn y mae addysg uwch yn ei gynnig yng Nghymru, gan greu ystod ehangach o gyfleoedd i unigolion ddatblygu'r sgiliau lefelau uwch sydd mor hanfodol i'n heconomi. Rwy'n ddiolchgar i'r sector am eu gwaith parhaus sy'n sicrhau bod y rhaglen hon yn llwyddiant. Rwy'n ymwybodol eu bod wedi gorfod ymateb i derfynau amser tynn ac i'r heriau y mae'r pandemig wedi'u hachosi mewn perthynas â chyflawni amcanion a recriwtio. Rwyf wedi dyrannu £5m o fewn cyllideb CCAUC i barhau i ddarparu gradd-brentisiaethau yng Nghymru eleni. Bydd cyllid ychwanegol ar gyfer 2021-22 yn cael ei gadarnhau maes o law.

23. Cafodd gradd-brentisiaethau eu cyflwyno lai na thair blynedd yn ôl, ac mae llawer i'w ddysgu. Rwy'n disgwyl i CCAUC barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar werthuso'r rhaglen yn annibynnol a gweithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Arloesedd, Entrepreneuriaeth Graddedigion

24. Mae'r cydgysylltu rhwng cyllid Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu sefydliadau addysg uwch a rhaglenni Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer arloesi drwy *SMART Expertise* a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs), yn fodel cydweithredu

effeithiol, a hoffwn weld hynny'n parhau ac yn cryfhau. Hoffwn hefyd weld bod y model yn parhau i gydweddu â'r rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid i gefnogi canlyniadau graddedigion a chryfhau ymgysylltiad â busnesau bach a chanolig a'r gymuned fusnes, er mwyn meithrin gwydnwch a datblygu galluoedd mentrus yng Nghymru.

Rhyngwladol

25. Er gwaethaf y cyfyngiadau a grëwyd gan y pandemig mae'r cyfleoedd marchnata a ddarperir o dan Gymru Fyd-eang a'i olynydd Cymru Fyd-eang II wedi cryfhau brand Astudio yng Nghymru ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhyngwladol. I gydnabod llwyddiant ac arwyddocâd y prosiect, rwy'n falch fy mod wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol eleni ar gyfer trydydd cam y rhaglen, sef Cymru Fyd-eang III, a fydd yn helpu i gynnal momentwm y fenter bwysig hon, yn galluogi buddsoddiad pellach yn y brand ac yn datblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhyngwladol parhaus.

26. Hoffwn i'r Cyngor a'i bartneriaid yn Cymru Fyd-eang ystyried sut y gellir ymestyn y manteision a ddaw yn sgil y rhaglen i Gymru ar draws y sector addysg drydyddol. O'r flwyddyn nesaf, bydd Cymru Fyd-eang yn cael ei hymgorffori yn y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu sydd newydd ei lansio. Hoffwn i'r Cyngor sicrhau cyfnod pontio didrafferth i Gymru Fyd-eang, ac ystyried sut y gall gyfrannu at waith datblygu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu a chefnogi'r gwaith hwnnw eleni.

27. Eleni byddwn yn dechrau gweld effeithiau llawn ymadawiad y DU o'r UE. Gan weithio gyda swyddogion a sefydliadau, dylai'r Cyngor barhau i fonitro ac ymateb i'r cyd-destun ehangach sy'n dod i'r amlwg a'i oblygiadau i'r sector addysg uwch.

Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)

28. Wrth inni symud ymlaen gyda'n diwygiadau ôl-orfodol ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil (AHO), hoffwn ddiolch ichi am barhau i chwarae rhan drwy gyfarfodydd i Randdeiliaid AHO, eich ymatebion manwl i ymgynghoriad a gweithdy technegol Drafft y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'ch cymorth i gyflawni a chyhoeddi Gweledigaeth ac Egwyddorion AHO ar gyfer Newid.

29. Rwy'n rhagweld y bydd y Llywodraeth newydd yn cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) o 2023, a fydd â goblygiadau eang i CCAUC a'r sector AHO. Bydd yn hanfodol bod y Cyngor a'i staff yn parhau i gydweithio â swyddogion ar flaengynllunio ac ystyriaethau ariannol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, er mwyn galluogi cyfnod pontio didrafferth a pharhad busnes drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ffrydiau gwaith CTER.

30. Wrth inni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y Comisiwn, hoffwn i'r Cyngor arwain ar ddwyn ynghyd cyrff amrywiol o'r sector a swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen datblygu arweinyddiaeth wedi'i chyd-gynhyrchu ar gyfer y sector trydyddol.

31. Bydd cydweithio ar draws y system addysg gyfan i wella mynediad cyfartal a deilliannau i ddysgwyr ôl-16 yn ganolog i'r Comisiwn newydd. Hoffwn i'r Cyngor barhau â'i ddull

cydweithredol drwy annog prifysgolion i fynd ati i ymhel â'r egwyddorion sy'n sail i Gwricwlwm Cymru.

Cefnogi Ysgolion a Datblygu'r Cwricwlwm

32. Cyhoeddais Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu ym mis Ionawr yn nodi, ar gyfer y system addysg a'r cyhoedd yn ehangach, ein paratoadau ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

33. Er mwyn gwireddu'r diwygiadau i'r cwricwlwm, mae angen dyheadau clir a chyffredin arnom, a dealltwriaeth glir o sut y bydd pob rhan o'r system yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i helpu ysgolion. I'n prifysgolion mae hyn yn cynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon, ac yn ymestyn y tu hwnt iddi.

34. Rwyf yn ddiolchgar am y rôl bwysig y mae llawer o'n prifysgolion yn ei chyflawni o ran cefnogi datblygu'r cwricwlwm ar lefel genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae adrannau'r Brifysgol ac ymchwilwyr ac academyddion unigol wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn y ffrydiau gwaith amrywiol ar gyfer canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Dylai'r sector barhau â'i gyfraniad at y broses o ddatblygu'r cwricwlwm ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae diwygio'r cwricwlwm yn broses barhaus – ac mae ymdrechu i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni'r pedwar diben yn nod sylfaenol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r trefniadau cychwynnol ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

35. Hoffwn i'r Cyngor annog ein prifysgolion i barhau i ymgysylltu ag ysgolion yn eu hardaloedd lleol, a thrwy drefniadau'r Rhwydwaith Cenedlaethol a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Drwy'r mecanweithiau hyn, a gweithio gyda phartneriaid addysg eraill gan gynnwys mewn addysg bellach, dylai prifysgolion chwarae rôl barhaus wrth gefnogi: profiadau dysgu ar gyfer plant oedran ysgol; trosglwyddiadau mwy effeithiol o ddilyniant dysgu cyn-16 i ôl-16; dysgu proffesiynol i ymarferwyr; a datblygu adnoddau dwyieithog ar y cyd ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn ogystal ag ymchwil a chyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Hoffwn i'r Cyngor weithio gyda'm swyddogion i ystyried sut y gall prifysgolion ymgorffori egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn eu darpariaeth eu hunain o wasanaethau er mwyn cefnogi dysgwyr yn well yn eu parodrwydd a'u gallu i gymryd rhan mewn addysg ôl-16.

36. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y sector dros y flwyddyn ddiwethaf wrth weithio gyda ni ar nifer o ddatblygiadau allweddol i gefnogi dysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol yn ein hysgolion. Rwy'n gobeithio y bydd y berthynas gydweithredol hon yn parhau wrth inni ddatblygu ein dull gweithredu ymhellach.

Cynllun Busnes ac Adrodd am Gynnydd

37. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich Cynllun Busnes, a ddylai gwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, yn nodi sut y byddwch yn cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r cyllid a ddyrannwyd wedi'i gadarnhau ar gyfer 2021-22 yn unig. Hoffwn i'r cynllun busnes ddisgrifio'n glir y gweithgarwch y bydd y Cyngor yn ymgymryd ag ef yn ystod y cyfnod hwnnw. Efallai y bydd angen Cynllun Busnes diwygiedig yn dilyn yr Etholiad a chyhoeddi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth newydd.

38. Cyflwynwch eich cynllun busnes i Alison Bryant, Pennaeth eich Tîm Partneriaeth, erbyn 30 Mehefin 2021.

39. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran monitro iechyd a chynaliadwyedd ariannol y sector. O ystyried bod y sector yn parhau i brofi'r effeithiau a'r risgiau sylweddol uwch o ganlyniad i'r pandemig, rwy'n disgwyl i'r Cyngor barhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd a chyfrinachol i'm swyddogion mewn perthynas â'r iechyd ariannol a'r risgiau cysylltiedig mewn sefydliadau.

Gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

40. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl gyrff cyhoeddus weithio yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

41. Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae CCAUC wedi cyhoeddi ei amcanion lles ac mae'n ofynnol iddo ddangos tystiolaeth o gynnydd mewn adroddiad blynyddol. Caiff y cynnydd ei fonitro gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trefniadau Goruchwylio

42. Bydd eich tîm partneriaeth yn parhau i gwrdd â chi i drafod trefniadau goruchwylio ac adrodd am gynnydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dull goruchwylio sy'n seiliedig ar risg, gan weithio gyda'i chyrff cyhoeddus i nodi'r lefel briodol o oruchwylio a monitro ar gyfer y sefydliad unigol. Bydd y tîm partneriaeth yn cynnal asesiadau cyfnodol o'r sicrwydd risg sydd ar gael iddynt.

43. Bydd y trefniadau hyn a'r cylch gwaith hwn yn parhau mewn grym gydol oes y weinyddiaeth hon, er y gellir diwygio'r cylch gwaith os bydd blaenoriaethau Gweinidogol yn newid. Ar ddiwedd tymor y Llywodraeth hon, bydd y trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno hyd nes bydd y weinyddiaeth nesaf wedi datblygu ei hagenda strategol.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg

Atodiad 1

Nodir dyraniadau manwl ar gyfer Llinellau Gwariant Cyllideb CCAUC ar gyfer 2021-22 isod (£au):

Refeniw (net)	203,413,000
Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant)	90,000
Cyfalaf (net)	10,000,000
Cyfanswm Cymorth Grant Arian Parod dros dro	**213,503,000**

Mae gwariant refeniw CCAUC yn gyfuniad o'r llinellau cyllideb canlynol a oedd ar waith cyn 2017-18:

- Ar gyfer ein Dyfodol;
- Costau rhedeg CCAUC; A
- Derbyniadau CCAUC.

Bellach, cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfyniadau ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell wariant. Fodd bynnag, ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i CCAUC roi amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o'i gostau rhedeg am y flwyddyn ac amcangyfrif o'u derbyniadau disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn. Bydd angen rheoli unrhyw ddiffyg mewn derbyniadau disgwyliedig o fewn dyraniad cyllideb cyffredinol CCAUC, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Llinell Wariant Refeniw CCAUC yn cynnwys y dyraniadau canlynol:

- £5m i gefnogi Gradd-brentisiaethau;
- £4.25m i ariannu cymhellion ôl-raddedig a bwrsariaethau 60+; ac
- £1.6m ar gyfer Cymru Fyd-eang III.

Atodiad 2

Amodau'r Grant

Bydd CCAUC yn cydymffurfio â thelerau'r Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arni rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru ac wedi'i dyddio Medi 2014 neu ddogfen arall o'r fath y gall Llywodraeth Cymru ei chyhoeddi i CCAUC o bryd i'w gilydd.

Amod y Grant ar Gydlyniaeth Ranbarthol

Wrth arfer ei swyddogaethau i ddyrannu cyllid i ddarparwyr addysg uwch, rhaid i CCAUC ystyried cydlyniaeth ranbarthol.